# Y BIGWN

CYF. 30 RHIF 5 GORFFENNAF 2018 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*

# DINBYCH 'TRE FARCHNAD ORAU CYMRU'




Alys Wyn, Elen, Lois ac Elen yn gwerthu nwyddau'r urdd at Eisteddfod 2020 yn Carnifal Dinbych. Tud 14/15



Hanes Prosiect Adeiladu Model hen Orsaf Trenau Dinbych Tud 2 ag 8



Hedd Wynn mewn cymeriad Tud 12



Bore Goffi Y Gymdeithas Gymraeg Tud 6




Noson Gwobrwyo Y Clwb Rygbi Tud 25

**Mae angen i BOB DIM fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn erbyn Dydd Gwener, Medi 21 - Ar Werth Hydref 6, 2018**



Gwyneth Kensler a John Brendan Davies yn dadorchiddio'r model o orsaf Dinbych sydd nawr yn Amgueddfa Dinbych



Gwyrfair,Gaynor, Gwyn, Richard a Gwyneth



Agoslun o'r orsaf



John yn dangos lluniau or hen orsaf i Ifor John



Pawb wedi ryfeddu at waith John





John Brendan Davies gyda'i waith o Orsaf Dinbych

# Gair gan y Golygydd

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**- Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones
01745 812214
russelljones9@talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
Berwyn Roberts (812672)
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Catrin Warren (814675)
Ceredig Gwynn (815701)
Ruth Williams (812822)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
Bryn Llys, 10 Llain y Capel
Dinbych LL16 3TU
01745 814497
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Ffion Whitham (01824 704642)
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Efallai ichi ddarllen canlyniad arolwg diweddar a gynhaliwyd gan y Swyddfa Bost ar y trefi marchnad gorau i fyw ynddynt yn y Deyrnas Unedig - ac i Ddinbych ddod i'r brig fel y tref farchnad gorau i fyw ynddi yng Nghymru. Yn sicr dylen fod yn hynod o falch o'i llwyddiant a braf ydi cael cydnabyddiaeth cenedlaethol am rywbeth yr ydym fel trigolion lleol yn ymwybodol ohono – ond efallai ddim yn ei werthfawrogi o ddydd i ddydd.

Mae'r dref yn cynnig cymaint i bobl sy'n byw yma, ac mae Y Bigwn yn sicr fel cyfrwng yn adlewyrchu'r ystod eang o weithgareddau cymunedol a gynhelir gan gymdeithasau a grwpiau lleol ac sy'n cyfoethogi bywydau pobl a phlant o bob oed. Rwyf yn fawr obeithio y bydd Dinbych yn parhau i dderbyn y cydnabyddiaeth haeddiannol yn ogystal gan y sefydliadau cyhoeddus hynny sydd yn bygwth crebachu neu ddiddymu ein gwasanaethau – y gwasnaethau cyhoeddus hynny sydd wedi cyfrannu i sicrhau ein statws fel y dref farchnad orau yng Nghymru.

Rhaid cofio fodd bynnag mai pobl sy'n creu cymuned - Llongyfarchiadau Pobl Dimbech!

## HEN LUNIAU

Os oes gennych hen luniau o'ch teulu, cymdogion neu ffrindiau o'r ardal ac yn dymuno eu rhannu gyda darllenwyr y Bigwn, anfonwch ar ffurf ebost at ybigwn@hotmail.co.uk ac fe roddwn un llun bob mis yn Y Bigwn. Os yn bosib, byddai enwau, digwyddiad neu yr achlysur yn help i bawb adnabod y llun.

**Dyddiadur**

**Gorffennaf 27ain**
**Nuadd y Dref, Dinbych**
**Noson Casino Elusen**
**Tocynnau £10**
**ar gael gan Clerc y Dref neu Gifts Galore**

Cymdeithas Y Bigwn
**Nos Wener, Medi 7fed**
am 6.00yh - Noson Rhostio Mochyn yng Nghlwb Rygbi Dinbych

**i gefnogi Pwyllgor Apêl Tref Dinbych, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2020**
£8 i oedolion, £4 i blant cynradd


Medi 29-30

Drysau Agored Dinbych

## BAG Y BIGWN

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

| | |
|---|---|
| Maldwyn a Gwenda Jones | £ 2.00 |
| Chris Hughes | £15.00 |




MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

Guthrie Jones a Jones Cyfreithwyr
Osian Roberts LL.B , Nansi Thirsk LL.B,
Dylan Edwards B.A.,LL.B
29 Ffordd Rhuthun, Dinbych LL16 3EH
Ffôn: 01745 814 817 dinbych@guthriejj.co.uk
GWASANAETH CYFREITHIOL CYFLAWN YN Y GYMRAEG
yn y Swyddfa neu Gartref

# Cyfarchion



PENBLWYDD HAPUS HWYR I JUNE HOWATSON SYDD WEDI DATHLU EI PHENBLWYDD YN 75 MIS MEHEFIN. (Dydi John ddim yn bell ar ei hol hefo'i penblwydd ym mis Medi. Wastad yn 'toy boy' i June) cariad mawr gan y teulu oll. Xxxx



Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Martha Llwyd Cordiner, Ystrad Bach yn 21 oed, Awst 15, 2018. Llawer o gariad oddiwrth Dad, Mam a Morgan a'r teulu i gyd.



PENBLWYDD HAPUS
NAIN yn 80
Gyda chariad a hygs oddiwrth Sion,Lois,Carwyn,Euron,Faye,Bethany ar teulu oll Xxx

## CYMDEITHAS Y BIGWN

### *NOSON I'R TEULU*

# Rhostio Mochyn



## CLWB RYGBI DINBYCH

## NOS WENER MEDI 7fed am 6.00

**£8 I OEDOLION, £4 I BLANT CYNRADD**

**MYNEDIAD TRWY DOCYN YN UNIG!!!**

***AR GAEL O SIOP CLWYD***
***neu ar 01745 812239***
***& 01745 817485***

**BWYD LLYSIEUOL AR GAEL**

**ELW'R NOSON TUAG AT EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD SIR DDINBYCH 2020**

## SIOE FLODAU HENLLAN MEDI 8fed 2018

Cynhelir Sioe Flodau Henllan dydd Sadwrn Medi 8fed 2018 yn y Neuadd Eglwys Henllan. Bydd y drysau'n agor i'r cyhoedd am 2 o'r gloch y prynhawn ac mae pris mynedfa yn £2.
Mae rhaglen y sioe i'w gael yn Swyddfa Post Henllan a Trefnant' neu oddi wrth yr ysgrifennydd; ffoniwch 01745 585681 am gopi. Dyddiad cau i ymgeiswyr yw Sadwrn Medi 1af 2018.
Cynhelir cystadleuaeth yr ardd orau, mawr neu fach; a Basged Grog 14" neu gynhwysydd i'w Feirniadu dydd Sadwrn 21af Gorffennaf 2018.
Cofrestru erbyn 25ain GORFFENNAF 2018 trwy gysylltu gyda'r ysgrifennydd; ffoniwch 01745 585681. Nodwch i berchnogion cartrefi i fewn dalgylch Henllan yn unig yw'r gystadleuaeth.
Mae Sioe Flodau Henllan eisiau gwirfoddolwyr yn gymorth ar wythnos y sioe i osod byrddau a ddeunydd allan a'u gadw ar diwrnod y sioe. Os gallwch chi ein helpu cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd ar henllanflowershow@btinternet.com

# Y Capeli

## Y Capel Mawr a Seion

Ar Fai 27ain bu farw Mr George Lloyd, Old Coach House yn 89 mlwydd oed. Bu yn ffyddlon iawn i'r oedfaon hyd i lesgedd ei lethu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cynhaliwyd ei angladd ar Fehefin 6ed dan arweiniad y Parch. Andras Iago gyda gwasanaeth i gofio a diolch am ei fywyd yn y capel a thraddodiant yn dilyn ym mynwent y dref. Mrs Dorothy Rogers oedd wrth yr organ.

Bedyddiwyd Harri Ifor, mab Bethan Mair a Craig Ollerton, Caerdydd, ŵyr Ifor John ac Ann Jones, 3 Cwm Arthur, yn ystod yr oedfa foreol ar Fehefin 3ydd. Gweinyddwyd y sacrament o fedydd gan y Parch. Andras Iago.

Croesawyd aelodau o'r teulu a chyfeillion i'r oedfa gan Mrs Nerys Ann Roberts., llywydd y mis, a'r organyddes oedd Mrs Dorothy Rogers.

Y Parch. R.O. Jones, Gaerwen, oedd y cennad ar fore Sul, Mai 20fed, tra chafwyd cwmni'r Parch. Trefor Lewis, Hen Golwyn, y nos Sul ganlynol.

Croesawyd y ddau ohonynt gan Mrs Cheryl Williams a Mrs Catrin Warren oedd yn cyfeilio.

Mrs Nerys Ann Roberts a groesawodd y Parch. Nesta Davies atom ar yr ail nos Sul ym Mehefin. Mrs Dorothy Rogers oedd y cyfeilydd.

Cafwyd diwrnod heulog braf ddiwrnod ein trip eleni. Prynhawn yn ymweld a Llaeth y Llan, Llannefydd oedd y dewis y tro hwn, ac fe aeth criw da ohonom yno. Croesawyd ni gan Gareth Roberts a chawsom hanes y busnes, a diddorol oedd clywed hanes y daith o'r dechrau un, ac fel yr oedd gwahanol amgylchiadau wedi arwain y ffordd at y llwyddiant presennol. Cawsom weld yr adeilad newydd modern ( drwy'r ffenestri!) a llawer yn gweithio yno. Wedi hynny roedd te prynhawn blasus yn ein aros, ac yn dilyn ymweld a'r gerddi gyda Falmai Roberts. Roeddent yn werth eu gweld, llawer o ol cynllunio a gwaith caled. Diwrnod i'w gofio, mewn llecyn braf iawn. Trefnwyd yn drylwyr fel arfer gan Tom Williams ac yntau hefyd ddiolchodd am y croeso, a diolch yn fawr iddo yntau am ei holl waith.

## Aelwyd Capel Mawr

Cafwyd diwrnod heulog braf ddiwrnod ein trip eleni. Prynhawn yn ymweld a Llaeth y Llan, Llannefydd oedd y dewis y tro hwn, ac fe aeth criw da ohonom yno. Croesawyd ni gan Gareth Roberts a chawsom hanes y busnes, a diddorol oedd clywed hanes y daith o'r dechrau un, ac fel yr oedd gwahanol amgylchiadau wedi arwain y ffordd at y llwyddiant presennol. Cawsom weld yr adeilad newydd modern ( drwy'r ffenestri!) a llawer yn gweithio yno. Wedi hynny roedd te prynhawn blasus yn ein aros, ac yn dilyn ymweld a'r gerddi gyda Falmai Roberts. Roeddent yn werth eu gweld, llawer o ol cynllunio a gwaith caled. Diwrnod i'w gofio, mewn llecyn braf iawn. Trefnwyd yn drylwyr fel arfer gan Tom Williams ac yntau hefyd ddiolchodd am y croeso, a diolch yn fawr iddo yntau am ei holl waith

## Capel y Fron

Nos Sul Mai $20^{fed}$ fe wnaeth Mrs Wendy Lloyd Jones estyn croeso i'r Parch R.O.Jones, Gaerwen atom a'r organyddes oedd Mrs Eiri Jones; fe waneth Wendy estyn yr un croeso i'r Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn atom fore Sul Mai $27^{ain}$ a'r organyddes oedd Mrs Iona Edwards. Braf oedd gweld Mr Ednyfed Williams yn yr oedfa gan obeithio ei fod yn cartrefu yn Ninbych wedi iddo dreulio llawer blwyddyn yn Nyserth. Yr oedd oedfa Gymun fore Sul, Mehefin $3^{ydd}$ dan ofal ein Gweinidog, Y Parch Andras Iago a Mrs Eiri Jones oedd yr organyddes y Sul yma.

Yr ydym yn cydymdeimlo gyda theulu y diweddar Megan Lloyd. Fe ddaeth Hefin a Megan Lloyd yn aelodau gyda ni wedi iddynt symud i fyw i Cysgodfa wedi blynyddoedd o wasanaeth fel gofalwyr Capel y Dyffryn ac felly wedi byw yn y Tŷ Capel. Yr oedd wedi treulio'i blynyddoedd olaf yn nghartref Plas Llanrhaeadr. Nos Sul Mehefin $17^{eg}$ yr oedd y gwasanaeth dan ofal Mr Tudur Hughes, Llanddoged a'r organyddes oedd Mrs Iona Edwards.

## Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws

Cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol nos Fercher, Mehefin $20^{fed}$ i drefnu rhaglen ar gyfer y tymor nesa ac fe wnaethom lenwi'r misoedd yn eithaf hwylus. Diolch yn fawr iawn i Mrs Elizabeth Edwards am ei gwaith fel ysgrifennydd ac i Mrs Caryl Jones am ofalu am yr arian. Swyddogion y tymor nesa fydd – Llywydd - Dilys, Is-Lywydd - Rhianwen, Ysgrifennydd – Liz, Is-ysgrifennydd Aledwen a Carys fydd ein trysorydd.

**"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"**

## RHYBUDD GDPR

Oherwydd rheolau newydd ynglŷn â phreifatrwydd data personol, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'r ffordd mae **Y Bigwn** yn casglu gwybodaeth a newyddion a'u cadw.

i ohebwyr, cyfranwyr, clybiau, grwpiau ac ysgolion ddatgan eu bod..... wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwr pob plentyn dan 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth anfon pob adroddiad i'r **Bigwn** wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn dros 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i'r **Bigwn.**

Ni dderbynnir unrhyw newyddion personol/lluniau am blentyn ond oddi wrth riant neu ofalwr y plentyn hwnnw.

Felly wrth ddanfon eich newyddion neu luniau i'r **Bigwn**, cofiwch eich bod wedi gwneud yr uchod a chynnwys y datganiad canlynol gyda'ch newyddion a'ch lluniau:

Rydym yn datgan ein bod wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwyr pob plentyn dan 13 a gynhwysir yn yr adroddiad/lluniau atodedig ar gyfer eu cyhoeddi yn **Y Bigwn**, yn ogystal â chaniatâd pob unigolyn dros 13 a gynhwysirDiolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth gyda hyn

## CAPEL BRWCWS.

Pnawn Sul, Mai 20ed croesawyd y Parch. R. O. Jones atom. Bryan Roberts oedd yr organydd.
Anfonwyd dymuniadau gorau i Iona Teleri Jones, Encil yn dilyn ei phriodas gyda Iwan Lloyd Roberts.
Bore Sul, Mai 27ain Edna Williams fu yn gyfrifol am y rhannau dechreuol yn yr Ysgol Sul. Y Parch. Trefor Lewis oedd y cennad yn oedfa'r pnawn. Bryan Roberts oedd wrth yr organ.
Hanes Joseff a'i siaced amryliw a gawsom gan Rhian, Cari a George a'r ddechrau'r Ysgol y Sul cyntaf o fis Mehefin. Oedfa Gymun dan ofal ein gweinidog y Parch. Andras Iago oedd yn y prynhawn. Carolyn Thomas oedd yr organyddes.
Dydd Sul, Mehefin 10ed agorwyd yr Ysgol Sul gan Lis Edwards.
Croesawyd Miss Llinos Mary Jones atom i oedfa'r prynhawn. Bryan Roberts oedd wrth yr offeryn.
Bleddyn Williams agorodd yr Ysgol Sul, Mehefin 17eg. Y cennad yn oedfa'r prynhawn oedd y Parch. Gwyndaf Jones, Bangor. Carolyn Thomas oedd yr organyddes.
'Caru dy Gymydog' oedd thema cywaith Ysgolion Sul yr Henaduriaeth eleni. Llongyfarchiadau i Cari Haf Cattell, George Gwilym Cattell, Cai Llwyd Jones, Rhys Llwyd Jones a Mared Elen Jones am eu gwaith. Cyflwynwyd tystysgrifau iddynt.
Llongyfarchiadau hefyd i Gwilym Williams a Bleddyn Williams ar dderbyn eu tystysgrifau hwythau wedi iddynt gyflwyno traethodau ar y thema "Caru ein Cymydog' yn adran yr oedolion.
Braf cael croesawu Elin, Guto a'r genethod yn ol i Ty Gwyn ar ei newydd wedd.
Bydd trip yr Ysgol Sul eleni i Landudno ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 21ain.

# Y Cymdeithasau

## Y Gymdeithas Gymraeg

Cynhaliwyd Bore Coffi er budd y Gymdeithas Gymraeg yn Llys y Coed, Ffordd Ystrad ar Sadwrn Mehefin 16eg a hynny trwy garedigrwydd Rhianwen Williams ac Edith Jones.
Ar wahan i'r baned, yr oedd stondin gacennau a stondin manion amrywiol a raffl.
Diolchwyd ar y diwedd gan Dilwyn Jones, yr ysgrifennydd, i Edith a Rhianwen am agor eu cartref ac i bawb fu'n paratoi'rbaned, Berwyn Roberts fu'n gofalu am y parcio, pawb fu'n gyfrifol am y stondinau, Nerys Ann Roberts, y llywydd, ac Erfyl Williams hefo'r raffl a Tom Williams, y trysorydd, hefo'r arian.
Diolch i bawb yn wir am gefnogi un o'r boreuau coffi mwyaf llwyddiannus yn hanes y Gymdeithas ers cryn amser.
Bydd Bore Coffi arall ar Fedi 15fed yn Y Berllan trwy garedigrwydd Meinir a Iori Roberts a bydd rhaglen y Gymdeithas wedyn yn cychwyn hefo Noson Gerddorol hefo Gwenan Gibbard yn yr Amgueddfa ar Nos Wener Hydref 19eg am 7yh.


Morgan, Teleri, Ruth, Gwawr, Rhianwen a Dilys


Nansi, Glenys, Moira a Lis


Maiwena a Martha


Freda a Mair


Gwawr a Ruth


Edith a Rhianwen


Berwyn a Magi


Nerys Ann gyda'r raffl


Gaynor a J.D.Williams


Dilwyn a Tom

## Clwb Gosod Blodau Dinbych

Theatr Twm o'r Nant oedd lleoliad ein noson agored a chroesawyd pawb i'r achlysur gan Doris. Arthur McDonald o Bury oedd yr arddangoswr.

I agor y noson defnyddiodd fasged hirgron o waith gwiail fyda Ffarwel Haf gwyrdd, Rhosyn y Mynydd gwyn, Carnasiwns, Eythrimus gwyrdd a deiliach oedd wedi eu gweithio drwy'r gwiail. Gosodiad hyfryd. Arbennig hefyd oedd yr un math o osodiad a wnaed ynghynt ganddo.

Gosodiad trofannol oedd yr ail un lle defnyddiwyd cnau coco (spathes), dail palmwydd mawr, Gerberas melyn a thusw sylweddol o Degeirian mân. Yna aeth i nôl gosodiad tebyg o du ol i'r lleni. Sôn am siom!

I greu ei drydydd gosodiad, defnyddiodd stand o haearn gyr o gynllun modern wedi ei ddolennu, gyda dail Aspedestra gwyrdd, Eythrymus porffor, Carnasiwns pinc a sbrigyn hardd o Degeirian Micara.

Broc môr gwinwydden ddefnyddiwyd i greu'r pedwerydd gosodiad gyda deiliach yn gorchuddio rhan o'r coedyn. Yna rhoed Rhoson gywnion, a Lilïau gwynion i greu campwaith ar gyfer ei roi ar fwrdd hir.

Wedyn defnyddiwyd masg bren gyda dail gwyrddion mawr, Peonis pinc a Rhosod coch a phinc. Hyfryd.

I gloi'r noson daeth a ffrâm haearn gyr i'r golwg fel canolbwynt i'r gosodiad gyda Hostas mawr, sbrigyn o ddail gwyrdd, Lilïau pinc a Rhosod mawr pinc. Roedd yn hynod o drawiadol.

Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr a bu rhai yn hynod o lwcus i gael mynd a rhai o'r gosodiadau adre gyda nhw.

Margherita Jones





Gwilym ac Edna Williams

## Cylch Cinio'r Fro

I gloi tymor y ciniawau fe gawsom 'Dê Prynhawn' yn festri'r Capel Mawr ddydd Gwener, Mehefin 8fed. Yr oedd yr arlwyo wedi ei baratoi gan Iona a Caryl. Mae ein diolch yn fawr i Wendy a Dafydd Lloyd Jones, Angharad ac Aled Rhys, Cheryl a Wayne Williams a'r Parch Nesta Davies am eu gwaith yn gweini wrth y byrddau ac yn helpu yn y gegin bob mis. Yr ydym yn gwerthfawrogi eich llafur diflinio yn fawr iawn.

---

## MERCHED Y WAWR, DINBYCH a'r CYLCH

Daeth tymor Merched y Wawr i ben eleni gydag ymweliad a gardd Pont y Twr, Rhuthun, cartref Sioned ac Iwan Edwards, a'r ardd sy'n cael ei dangos ar y rhaglen deledu 'Garddio a Mwy'

Ar noson hyfryd o braf, croesawyd ni yn gynnes iawn gan Sioned a'r teulu i'r ardd, a cawsom i gyd gyfle am sgwrs dros baned a chacen(nau) cyn cael ymlwybro'n hamddenol i wahanol ardaloedd yn yr ardd. Mae gwaith caled wedi mynd i greu y safle godidog yma, ac mae dal digonedd o waith gan y teulu eto i greu gardd y byddai unrhyw arddwr yn falch o gael ei harddangos. Diolchwyd i Sioned a'r teulu am adael i ni gael blas o'r hyn sy'n rhoi pleser iddynt gan Mair Roberts. Rhoddodd Sioned wobr raffl ar gyfer y noson ac fe'i henillwyd gan Gwyneth Roberts a balch oeddem o gael ei phresenoldeb y noson honno ar ol cyfnod o salwch.

Aethom ymlaen wedyn i gael swper blasus yn y Ceffyl Gwyn yn Llandyrnog. Diolchwyd i'r pwyllgor am drefnu rhaglen diddorol ar gyfer y tymor dwytha, ac edrychwn ymlaen i gael ail gychwyn tymor nesaf ar nos Fercher, Medi 5ed yn Festri Capel y Fron fel arfer. Croeso cynnes i aelodau newydd ymuno hefo ni – be am ddod fel criw ffrindiau, cewch groeso gennym! Croeso hefyd i unrhyw ddysgwraig atom i alluogi chi ymarfer eich cymraeg.



Merched y Wawr yn Plas Pont y Twr nos Fercher y 6ed. Mair wrth ei bodd a y trampoline.



Rhai o'r aelodau yn mwynhau yn yr ardd

# GORSAF TREN DINBYCH

**Cefndir**
Roedd yr orsaf ei hun yn adeilad urddasol, wedi ei wneud o galchfaen a gloddwyd yn lleol yn Chwarel y Graig. Adeiladwyd yr orsaf ar gyfer Rheilffordd Dyffryn Clwyd yn yr 1860au gan gynnwys pencadlys y rheilffordd ac, am gyfnod byr, pencadlys Rheilffordd Dinbych, Rhuthun a Chorwen. Roedd rhai yn dyfalu mai ar gyfer ysgol y dylunwyd yr adeilad yn wreiddiol, ond nid oes tystiolaeth bendant i gefnogi hyn.
Daeth rheilffyrdd i'r dre pan adeiladwyd Rheilffordd Dyffryn Clwyd a ymgorfforwyd gan ddeddf ar 23ain Mehefin, 1856. Arolygwyd y lein o Gyffordd y Foryd i orsaf dros dro yn Ninbych gan ddyn o'r enw Capten Ross ar 22ain Medi, 1858 ac agorwyd i drafnidiaeth ar 5ed Hydref yn yr un flwyddyn. Agorwyd yr orsaf barhaol yn Ninbych ym mis Rhagfyr 1860 ac roedd wedi ei hen sefydlu erbyn i lein Yr Wyddgrug a Dinbych gychwyn ar 12fed Medi, 1869 gan gwblhau cyffordd y tair lein (Rhuthun, Yr Wyddgrug a Foryd y Rhyl) yn yr orsaf.
1938 a 1939 oedd y blynyddoedd prysuraf yn hanes yr orsaf gyda thros gant a hanner o siwrneiau ar Sadwrn arferol yn yr haf, heb gynnwys gwibdeithiau a thrafnidiaeth ychwanegol, ac mae sôn am ymestyn taith y trên olaf i Ruthun at Nant Clwyd ac hyd yn oed Corwen i ddiwallu anghenion teithwyr hwyr y nos.
Caewyd y lein i deithwyr ar 30 Ebrill 1962 ac i nwyddau ym 1966. Dymchwelwyd y bont yn ddiweddarach ac yna yr orsaf ei hun. Credir i rwbel yr orsaf gael ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer Ysbyty Pool Parc, Rhuthun.

**Pam creu model o Orsaf Dinbych?**

Cefais fy magu yng Ngwesty'r Gobaith ac Angor, Stryd y Dyffryn, Dinbych, rhyw ddau gan llathen o orsaf Dinbych. Clywid sain trenau stêm, siyntio a dadfachu yn feunyddiol. Byddem yn mynd i'r orsaf yn aml cyn mynd i'r Ysgol Ramadeg i gyfarfod â'n ffrindiau o bentrefi cyfagos fel Bodfari.
Fel plentyn yn y 1950au, roedd gen i fodel o reilffordd (Tri-ang). Tyfodd fy nghasgliad yn raddol trwy arian poced ac anrhegion penblwydd a Nadolig. Yn y pen draw, storiwyd y model a'i anghofio i bob pwrpas.
Roedd syniad yn fy mhen ers nifer o flynyddoedd yr hoffwn, petai amser yn caniatáu, ymdrechu i wneud model o'r orsaf. Dechreuais o'r diwedd tua 5/6 mlynedd yn ôl. O dipyn i beth, cymerodd siâp yn fy atic. Yn anffodus, nid oedd gen i olygfa go iawn o'r orsaf o ochr y trac a bu rhaid dyfalu rhywfaint. Er hynny, ac ystyried nad oeddwn erioed wedi creu unrhyw fath o fodel o'r blaen, roeddwn yn eitha bodlon gyda'm cynigion cyntaf. Gwelodd un o'm merched y model a thynodd nifer o luniau a'u rhoi ar Facebook a bu cryn dipyn o drafod a diddordeb. Gofynwyd i mi ystyried benthyg y model i Amgueddfa Dinbych. Daethum o hyd i lun inc o'r orsaf o ochr y trac ar y we. Mae'n bosibl bod y llun yn dyddio o ychydig cyn neu yn fuan wedi adeiladu'r orsaf. Ysbrydolwyd fi trwy hyn i geisio creu model arall a fyddai'n fwy cywir. Wedi penderfynu ceisio ei ail-adeiladu, cynigiais y model gorffenedig i'r Amgueddfa i'w arddangos yn barhaol.

**Ynglyn â'r Model ei hun...**
Yn gyntaf, fe wyddwn na allwn adeiladu'r model newydd yn atig fy nhy gan na fyddwn wedyn gallu ei symyd. Wrth lwc 'roedd ystafell wag ar gael yn swyddfa fy ngwmni yn Rhuthun. Ar ôl adeiladu'r orsaf newydd adref, fe'i drosgwyddais at lawr newydd o ryw pump a hanner troedfedd wrth tair a hanner troedfedd oherwydd dyma'r maint mwyaf y medrai fan fy mab yng nghyfraith ei gymryd er mwyn ei gludo i Ddinbych.
Graddfa'r model, yn fras, yw 1/76 (neu yn nhermau rheilffyrdd) 00. Sut bynnag, cafodd adeilad yr orsaf ei wneud ychydig yn fwy gan ei fod, wedi'r cwbl, yn ganolbwynt i'r cyfan. Lluniais y model, gyda help amryw luniau, ar sut yr edrychai tua 1960, sef ychydig flynyddoedd cyn cau.
Daw mwyafrif y tai ar Stryd y Dyffryn, hefyd Gwesty'r Rheilffordd a thai Ffordd y Rhyl o'r model atig gwreiddiol. Felly hefyd y model Mesurydd Nwy a'r gwaith Nwy Castellog. Ychydig iawn o help gan luniau oedd ar gael, felly mae arnaf ofn mai dyfalu adeiladwaith y Gwaith Nwy oedd raid.
Fy nhegannau Triang gwreiddiol o'r 1950au yw'r peiriant tren a'r cerbydau. Rhaid i mi gyfaddef nad ydynt yn engreifftiau arbennig o gywir o'r hyn oedd ar gael yn y cyfnod hwn nag ychwaith y mathau o dren a cherbydau a ddefnyddid gan Reilffordd Dyffryn Clwyd. Mae yma hefyd gerbydau ffordd Matchbox o'm casgliad o'r 50au. Gwelwch wrth sylwi ar eu cyflwr eu bod wedi cael llawer o ddefnydd.
Mae cynllun y Monumental Mason ar waelod Stryd y Dyffryn rywbeth yn debyg i'r hyn y cofiaf o'm dyddiau cynnar. Ni welais unrhyw luniau ohono, ond yna yr oedd. Yn nes ymlaen fe symudodd i ochr arall y stryd ac yn uwch i fynny (102 St. Y Dyffryn)

Hefyd, ar waelod Stryd y Dyffryn yr oedd lle chwech y dynion. Mae tyllau yn wal yr orsaf lle gorweddai trawstiau to hwn yn dal i'w gweld. Credaf fod ganddo garthffos agored, ond yn sicr yr oedd yn drewi! 'Does gennyf ddim lluniau o Iard Goed Roberts (?) ar gornel Stryd y Dyffryn/ Ffordd y Rhyl. Mae adeilad y swyddfa ac ychydig o adeiladau eraill ynghyd a'r terfyn yn weddol gywir gennyf gan eu bod yno o hyd! 'Does gennyf ddim cofnod o arwyddion a.y.y.b. Eto fyth, er bod gennyf luniau diweddar o flaenau Llaethdy Sir Ddinbych, mae cynllun y lle yn 1960 yn ddirgelwch a felly yn dibynnu ar atgofion. Gobeithio y gwnewch mwynhau fy nghynnig ar atgyfodi darn o Ddinbych sydd wedi hen fynd.

John Brendan Davies Ebrill 2018

Diolch i'm cyd-weithwyr yn yr Energy Company am ddod i arfer gyda mi yn diflannu bob nawr ac yn y man i weithio ar y model. Diolch i'mrawd yng nghyfraith Gary, am adeiladu'r llawr, tyllu'r Perspex a threfnu cludo'r cyfan i'r Amgueddfa. Diolch hefyd i bawb yn yr Amgueddfa am adael i mi arddangos y model. Yn olaf, diolch i'm gwraig Christine, am ddioddef penwythnosau coll a mi'n diflannu i'r swyddfa er mwyn gorffen y gwaith.




# Beth yw corpws?

Yn y bôn, banc o eiriau yw corpws, ond dyw corpws ddim yr un fath â geiriadur. Pan fydd defnyddwyr yn chwilio am air mewn corpws, byddan nhw'n gallu gweld llawer o enghreifftiau o'r geiriau yn eu cyd-destynau gwreiddiol, fel eu bod wedi cael eu defnyddio gan yr awrduron neu'r siaradwyr gwreiddiol. Gall defnyddwyr hefyd gael gwybod, er engraifft, pa mor aml y mae gair penodol yn cael ei ddefnyddio, neu greu cwisiau I helpu gyda dysgu iethoedd. Yn gryno, mae corpws yn offeryn electronig gwerthfawr sy'n caniatau I ni ddeall ein hiaith yn well.

Adeiladu Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes

Er mwyn creu'r adnodd hwn, rydym ni'n casglu engrheifftiau o Gymraeg llafar, ysgrifenedig a digidol gan bobl o bob oedran ac o bob cwr o Gymru. Rydym ni'n anelu at gasglu 10 miliwn o eiriau mewn cyfanswm - ac felly rydym ni angen eich help! Rhowch eich Cymraeg I ni!

Ap torfoli CorCenCC

Ma ap torfoli CorCenCC - sydd yn gweithio ar iOS (mae fersiwn Android ar y gweill) - yn caniatau I saradwyr Cymraeg recordio eu sgwrsiau ar draws ystod o gyd-destynau. Ym mha gyd-destynau dych chi'n defnyddio'r Gymreg? Gartre, yn y gwaith, wrth gymdeithasu gyda ffrindiau? Cewch chi recordio unrhyw le dych chi eisiau! A fydd neb yn gwybod pwy ydych chi, felly does dim rhaid poeni am hynny chwaith!

Mae'r ap yn gwneud y broses o gyfrannu at y coebws yn hawdd iawn, ac mae'n caniatau I ni gynnwys iath yn y corpws sydd mor naturiol â phosib ac sy'n adlewyrchu iaith bob dydd siaradwyr Cymraeg.

Mae'r ap yn rhad ac am ddim a gallwch lawrlwytho'r fersiwn gyntaf ohono yma:
http//itunes.apple.com/gb/app/ap-torfoli-corcencc/id19926082
www.facebook.com/CorCenCC



Tîm y Fenter Iaith yn recordio sgwrs Gymraeg ar gyfer Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes yr wythnos ddiwethaf.



Daeth tymor y Maer Cyng. Roy a Gaynor Tickle i ben yn ddiweddar, ac yn ôl yr arfer dosbarthwyd arian a wnaed gydol y flwyddyn at achosion da. Horton a Nicky Owen (North Clwyd Animal Rescue), Peter Alexander (Sant Cyndeurn), Luned Yaxley (Ty Gobaith a Sgt Neil Stringfellow.

# Sul y Maer



Y Maeres Cyng.Nicola McIntyre a'r Maer Catherine Jones



Cynhaliwyd y gwasanaeth yn yr Eglwys Gatholig dan ofal Diacon Parch John Carter ar Tad George Areekuzhy.

Gwersyll yr Urdd
Llangrannog
Llandysul
SA44 6AE

21 Mehefin 2018

Annwyl gyfeillion

Ysgrifennaf atoch i dynnu sylw at ddigwyddad y bydd Urdd Gobaith Cymru yn ei chynnal yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd fis Awst eleni.

**Hiraethu am hafau hyfryd Llangrannog**

Ar nos Iau, 9fed o Awst am 5.30yp ym Mhabell y Cymdeithasau (Y Senedd), Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd bydd trafodaeth banel yn rhannu atgofion a straeon am hafau a dreuliwyd yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog, boed hynny fel staff, swog neu breswyliwr.

Rydym hefyd yn estyn gwahoddiad cynnes i holl ddallenwyr y papur i ymuno yn y sgwrs drwy rannu eu straeon. Croeso i bawb ddod a lluniau ac atgofion a bydd posib i ni gofnodi'r rhain fel rhan o broses archifo'r Urdd.

Yn cadeirio fydd Angharad Mair gyda'r panel yn cynnwys Steffan Jenkins (cyn-gyfarwyddwr y gwersyll), Ian Gwyn-Hughes a nifer o gyn-wersyllwyr, swogs, staff ac enwogion eraill.

Os hoffech gadarnhau eich presenoldeb gellir gwneud hynny drwy ebostio llangrannog@urdd.org

Fel y gwyddoch efallai, yn 2022 bydd yr Urdd yn dathlu ein canmlwyddiant felly dyama gyfle i edrych yn ôl ac edrych ymlaen ...

Diolch Lowri Jones, Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Llangrannog

Mae Dinbych yn Blodeuo yn cynnal cystadleuaeth ffotograffau ar gyfer creu Calendr 2019. 'Dinbych yn Blodeuo' yw'r thema a rhaid i'r ffotograffau gael eu tynnu yn neu o fewn 2 filltir i ganol y dref. Os ydych am gystadlu, gallwch anfon lluniau wedi eu hargraffu at Y Carpet Emporium, 35, Y Stryd Fawr, Dinbych, LL16 3HY, neu anfon delweddau digidol at denbighinbloom@hotmail.com cyn Awst 31ain, 2018.

Cofiwch roi eich enw, cyfeiriad, a rhif cyswllt efo pob llun gydag eglurhad lle'i tynnwyd. Edrychwch ar dudalen FB Dinbych yn Blodeuo am y rheolau llawn.

Bydd y Calendr ar werth yn yr Hydref.

**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

DBP
Home Improvements N.Wales

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 815555**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**




**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

# Rhisiart Arwel yn dod nôl at ei wreiddiau



Bydd y gitarydd clasurol Rhisiart Arwel yn dychwelyd i berfformio yn Ninbych mis Medi nesaf.

Bydd y cyngerdd yn Theatr Twm o'r Nant nos Iau'r 6ed o Fedi yn rhan o daith o gwmpas Cymru i ddathlu rhyddhau cryno ddisg newydd ganddo.

Bydd y CD yn cael ei lansio yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd ym mis Awst: "Fel Cymro, mae'n gyffrous iawn cael rhyddhau CD o berfformiadau ar y gitâr," meddai Rhisiart.

"Mae'n siŵr bod hyn yn weddol unigryw, achos dw i ddim yn credu bod llawer ohonon ni'n perfformio'n broffesiynol ar y gitâr yng Nghymru".

Ychwanegodd Rhisiart: 'Ces i fy ngeni yn Ninbych a dw i'n cofio'r wefr oes i wrth ddod nôl i berfformio yn Theatr Twm o'r Nant ddiwedd yr 80au, neu ddechrau'r 90au".

Rŵan, ar achlysur rhyddhau cryno ddisg gyda Chwmni Sain mae Rhisiart yn dweud y bydd hi'n fraint cael dod nôl i Ddinbych a'r fro i gynnal cyngerdd ar ôl cymaint o flynyddoedd.

"O ran naws, noson anffurfiol iawn fydd hi", meddai Rhisiart. "Gyda pherfformiadau o ddarnau poblogaidd ac adnabyddus o Ewrop a De America, a'r cyfan yn cael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, gan fy mod i wedi byw a gweithio ym Mhatagonia am gyfnod, mae gen i gysylltiad agos gyda cherddoriaeth a diwylliant yr Ariannin, felly mi fyddai'n perfformio nifer o ddawnsfeydd lliwgar o'r wlad honno fel y Milonga a'r Tango".

Beth sydd hefyd yn gwneud y cyngerdd gitâr yma mor unigryw ydy bod Rhisiart wedi trefnu nifer o ddarnau adnabyddus o Gymru ar gyfer y gitâr, yn alawon gwerin ac emyn-donau. "Rwy'n cael ymateb anhygoel pan dw i'n chwarae'r caneuon gwerin mewn cyngherddau tu allan i Gymru", meddai Rhisiart. "Tydi ein halawon gwerin ni ddim mor adnabyddus dramor, felly mae pobl yn rhyfeddu at brydferthwch y caneuon a'r emyn-donau". Bydd hi bendant yn ddiddorol gweld ymateb pobl Dinbych a'r fro pan fyddan nhw'n clywed yr alawon yma'n cael eu perfformio ar y gitâr".

Ganwyd Rhisiart a'i frawd Ieuan (Wyn Jones) yn Ninbych, ac er i'r teulu adael yr ardal pan oedd Rhisiart yn ifanc iawn, treuliodd Ieuan ei frawd gyfnod o ddwy flynedd yn Ysgol Pwll y Grawys. Yn Stad Llywelyn, mewn tŷ o'r enw Marian Glas roedd y teulu'n byw bryd hynny. "Cyrhaeddodd fy nhad Dinbych yn 1944 yn syth ar ôl gorffen Coleg y Bedyddwyr ym Mangor" meddai Rhisiart.

Gweinidog gyda'r Bedyddwyr oedd o, gydag enw Cymreig iawn - John Jones! Cafodd y teulu flynyddoedd hapus iawn yn yr ardal. "'Yn Ninbych priododd mam a dad, yn 1947" meddai Rhisiart. "Roedd mam wedi bod yn gweithio fel nyrs a bydwraig yn y fro cyn priodi, ond yn dilyn y drefn bryd hynny, roedd disgwyl i bob gwraig briod rhoi'r gorau i weithio ar ôl priodi". Wedyn, yng nghanol y 50au, symudodd y teulu i gymoedd y de am gyfnod, cyn dychwelyd i Gorwen, yn yr hen sir Feirionydd yng nghanol y 60au. Cymaint bu'r newid yn sefyllfa'r capeli erbyn diwedd y 60au, fel bu John Jones yn gyfrifol am chwe Eglwys yn ardal Edeirnion a Phenllyn, o Lyndyfrdwy yn y Dwyrain hyd at Lanuwchllyn yn y Gorllewin.

"I Ysgol y Berwyn y Bala aeth fy mrawd a minnau" meddai Rhisiart. "Roedd hi'n hynod o braf nid yn unig cael dod nôl i'r gogledd ond hefyd cael cyfle i ailgydio yn y berthynas efo Dinbych unwaith yn rhagor. Ar ôl fy nhad golli ei iechyd ddechrau'r 70au, daeth fy rhieni nôl i fyw i Ddinbych a chawson nhw flynyddoedd hapus iawn yma. Yn y cyfamser, roedd fy mrawd wedi dod i weithio fel cyfreithiwr gyda chwmni Williams Jones a Talog Davies yn Rhuthun gan drosglwyddo'n ddiweddarach i Ddinbych ar ôl i Williams Jones a Talog Davies gymryd cwmni Aneurin Evans drosodd".

"Priododd fy mrawd gyda merch o'r fro, y diweddar Eirian Llwyd, meddai Rhisiart. Roedd Eirian, o fferm Tan y Waun, Prion yn arlunydd talentog ac fe'i collwyd hi o'n mysg yn greulon o fuan".

Ychwanegodd Rhisiart: "Rwy'n edrych ymlaen yn arw at gael dod nôl i Ddinbych ym mis Medi. Bydd cael perfformio yn Theatr Twm o'r Nant unwaith eto yn brofiad anhygoel, a dw i'n gobeithio cael cyfle i gyfarfod â ffrindiau a chydnabod o gyfnod bore oes unwaith eto"

**Cynhelir cyngerdd gitâr gyda Rhisiart Arwel nos Iau Medi'r 6ed yn Theatr Twm o'r Nant am 7.30pm.**

Tocynnau ar gael gan:
Menter Iaith Sir Ddinbych (01745 812 822)
Siop Clwyd (01745 813 431)
Gaynor Morgan Rees (01745 812 349).
Pris y tocynnau bydd £8 yr un.


PyBj



GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

# Hedd Wyn Mewn Cymeriad



Mae sioeau un dyn/un ferch ‘Mewn Cymeriad’ yn cyflwyno hanes Cymru gyda hwyl a chyffro i blant ysgolion cynradd ledled Cymru ac fel rhan o Ŵyl Ganol Haf Dinbych, yr actor Sion Emyr ddaeth i Gapel y Fron i gyflwyno hanes Hedd Wyn i ddisgyblion bl.3 a 4 Ysgol Twm o’r Nant ac i lond llaw o oedolion dewr yn eu mysg!!!

A dyna be oedd sioe gyffrous gyda’r plant yn mwynhau cymryd rhan yn y cyflwyniad oedd yn gyflwyniad ysgafn er mai trist ydi hanes Hedd Wyn, fel y gwyddom – dipyn o gamp gan Sion Emyr a’r awdur!

Cawsom rannu barddoniaeth Hedd Wyn (“Dim ond lleuad borffor ar fin y mynydd llwm……”) a chawsom hanes yr eisteddfod gadeiriol a’r plant wrth eu boddau yn actio defod y cadeirio oedd yn cynnwys yr Archdderwydd, ceidwad y cledd a’r ffanfferwyr a phawb mewn gwisgoedd. (Roedd Hedd Wyn wedi ennill sawl cadair cyn ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Enillodd ei gadair eisteddfodol leol gyntaf yn ddeunaw oed.)

Hefyd cawsom hanes y Rhyfel Mawr a’i effaith ar yr Ysgwrn a Thrawsfynydd a bu plant Ysgol Twm o’r Nant yn dynwared milwyr yn gorymdeithio wrth baratoi mynd i ryfel a chawsant hwyl yn gwneud hynny. Yna hanes y Gadair Ddu a’r tristwch!

Dysgodd y plant hefyd am ddyfalbarhad y bardd wrth iddo wireddu ei freuddwyd o ennill cadair yr Eistddfod Genedlaethol. Enillodd mewn eisteddfodau lleol gan gynnwys Eisteddfodau Pwllheli a Llanuwchllyn a daeth yn ail yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth yn 1916. Dyfalbarhaodd gan dreulio cyfnod gartref yn yr Ysgwrn o’r gwersyll milwrol yn Lerpwl, yn gweithio ar ei awdl ‘Yr Arwr’ a anfonodd i’r Eisteddfod Genedlethol dan y ffugenw ‘Fleur de Lis’ ar ôl iddo gyrraedd Ffrainc.

Cafwyd bore cyffrous yng Nghapel y Fron yng nghwmni Hedd Wyn(Sion Emyr) a braf oedd gweld y plant mor barod i gymryd rhan ac yn ymateb mor dda. Dwi’n siwr eu bod wedi dysgu llawer am Ellis Humphrey Evans neu Hedd Wyn.

Diolch i Fenter Iaith Dinbych am drefnu. Melys moes mwy.







Jones & Graham

45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH

CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES

Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim

Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg


01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk

**Atebion Croesair Mehefin 2018**

**Ar Draws :** 1. Clamp 4. Cyfanswm 10. Egluradwy 11. Elfyn 12. Dyfodol 13. Atodol 15. Ddewi 17. Gwenwynig 19. Ambiwlans 20. Wlna 23. Stepio 24. Oherwydd 27. Genod 28. Iseldireg 29. Osgiladu 30. Dysgu

**I Lawr :** 1. Caerdydd 2. Adlef 3. Parodi 5. Ynys 6. Abertawe 7. Syfrdanol 8. Monolog 9. Adolygiad 14. Seismoleg 16. Wybrenog 18. Bwriadol 19. Amsugno 21. Arddegau 22. Ceudod 25. Wyres 26. Diod

# CROESAIR GORFFENNAF2018



**AR DRAWS**

1. Clogyn
5. Peiriant hedfan
10. Cynnydd
11. Handi iawn mewn cawod o law
12. Cerrig mân, gweddillion rhewlif
15. Drysu
16. Y noson cyn heddiw
17. Nid cau ond .....
18. Drama gan Saunders Lewis
19. Tenant
20. Maenordy
22. Darn o gig
25. Angen talu rhywun
27. Ein rhan ni o Gymru
28. Y chweched blaned
31. Ymchwiliad gwyddonol
32. Gostwng pwysigrwydd
33. "...... Mwyn", nofel
34. Trafod, ee pris neu gyflog

**I LAWR**

2. Gyrru nwyddau i wlad arall
3. Un rhan o dair
4. Rhywle i aros dros dro
5. Trwy hwn mae 5ad yn symud!
6. Mae'n ceisio darganfod cyfrinachau
7. Myfyriwr
8. Roedd un o'r rhain yn Nhrawsfynydd
9. Cneuen
13. Cennad
14. Ardal â sedd mewn senedd
15. Yn poeni am fanylion
20. Brechiad
21. Cangen o Fathemateg
23. Tystysgrif sy'n rhoi caniatad
24. Canu clodydd
25. Cân gan ddau berson
26. Surbwch
29. .... ap Glyn, bardd o Lundain
30. Sion a ....

# Hwyl Carnifal Dinbych



Conner ac Alyssa



Dixi



Celyn Waller a Kaiden Cluckie



Zachary, Alexa a Zac




Ella Mai Roberts



Summer McIntyre



Cris Ruane, AS, Celia a Mike Berry, Cyng. Roy a Gaynor Tickle gyda Dahna Mee



Peth o hwyl y wreslo



Uchel eu byd




Cyngh. Gayner Tickle, Tywysog Conner a Chloe Dymond



Cyng Gaynor Tickle, Brenhines Jessica a Chris Ruane AS




Chloe Loise Dymond, Tywysoges Tilly a'r Maeres Cyng. Nicola McIntyre



Beirniad y Carnyfal - Chris Ruane A.S., Maeres Cyng. Nicola McIntyre, Maer Cyng Catherine Jones, Cyng. Roy a Gaynor Tickle, Chloe Louise Dymond - 'Miss Inked 2018' a Dahna Kay Hornby-Mee 'Minnie Face of Wales 2018' fydd yn cynrychioli Cymru yn America eleni.



Maer Chynghorydd Cathrine Jones yn cyflwyno tlws ir cerbyn gorau Snuggles





Gwyneth Kensler a Helenna Cowthrey



Aron 12 oedd yn dangos sut i drin bwyallt



Enilliwr y wisg ffansi dan 5 oed oedd Tomos Beattie



Maeres Cyng. Nicola McIntyre a Cathline enilliwr gwisg ffansi



Sali Mali a Mr Urdd o gwmpas y maes





Jamie yn tri o law ar rowlio casgen



Gwobr i Elizabeth Sandeman, arweinydd Côr y Cymuned



Osian Williams o dîm Bwyllwyr Clwyd



Cadair yn rhodd i Idris

# Ysgol Twm o'r Nant





Llongyfarchiadau mawr i Seren a Chloe ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd. Braf oedd gweld eich campwaith wedi ei arddangos ynhyfryd yn yr Eisteddfod yn Llanelwedd.



Aeth blwyddyn 4 i dwrnament chwarae criced yn Ninbych a daethant yn ail, diolch i Mr Aled am eu hyfforddi a llongyfarchiadau mawr.
Bu 4 o hogie blwyddyn 5 a 6 yn cystadlu yng nghystadleuaeth nofio, cawsant y wobr gyntaf yn eu ras cyfnewid a daeth Jac yn fuddugol yn ei ras unigol. Bendigedig hogie a daliwch ati.





Cafodd blant yr Uned dan 9 weithdy drama Hedd Wyn yn ddiweddar yng Nghapel y Fron. Cafwyd actio gwych a'r plant wedi mwynhau yn arw.



Bu timau rygbi merched a bechgyn yn brysur mewn ambell i dwrnament. Da iawn nhw.



Ein thema yn yr Uned dan 5 y tymor yma ydi Mynd am Dro. Mae'r plant wedi bod yn cael llawer o hwyl yn creu ardaloedd chwarae rôl newydd i gyd fynd â'r thema sef Swyddfa deithio, lan y môr, gwersyll gwyliau a chae pêl droed Cwpan y Byd!! Dyma luniau rhai o'r plant yn defnyddio'u dychymyg wrth chwarae rôl.

Cyflwyno medalau a thystysgrifau i'r tîm buddugol yng nghwpan y byd.




Pawb yn brysur yn archebu eu gwyliau Haf!!




Mae plant yr Uned Dan 7 wedi mwynhau cael bod yn aelod o Glwb Cerdded newydd yr Uned. Y sialens am weddill yr hanner tymor oedd i bob dosbarth gerdded hanner milltir bob dydd! Mae wythnos un wedi ei gwblhau ac mae'r plant wedi cerdded cyfanswm o 6 milltir!





Mae'n gyfle i gadw'n iach tra'n sgwrsio gyda'n ffrindiau!

Blwyddyn 5 a 6

Cafodd Blwyddyn 5 amser anturus iawn ar y gweithgareddau yn Llangrannog wythnos yma!

Atgofion y plant:

Catrin Jones – "Fy hoff beth oedd mynd ar y ceffylau a rasio o gwmpas ar y beiciau cwad."

Mari Evans – "Cefais gymaint o hwyl yn Llangrannog! Roedd yna gymaint o bethau I wneud yna ac roedd y bwyd mor neis!"

Beca Williams – "Roedd Llangrannog yn andros o dda! Cefais lawer o hwyl gyda fy ffrindiau."



Mae nifer fawr o gystadlaethau chwaraeon wedi cael eu cynnal yn ddiweddar. Da iawn i bawb fu'n rhedeg trawsgwlad yn Llanfwrog, cwrs heriol iawn. Da iawn yn arbennig i Elis o flwyddyn 4 a Grace o flwyddyn 6 ar ddod yn y tri uchaf yn eu hoedran.



Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council
CYMRAEG
Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

Plaid Cymru | Party of Wales
Llyr Gruffydd AC
Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:
Llyr Gruffydd AC
Canolfan Fusnes Birch House
Hen Lôn Parcwr
Rhuthun
LL15 1HN
01824 703593
Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru
Yn gweithio dros y gogledd
@LlyrGruffydd
www.llyrgruffydd.cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales



Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar

FFORWM TREFTADAETH GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

Mae Gwefr heb Wifrau yn aelod o Fforwm Treftadaeth Gogledd Ddwyrain Cymru a nhw drefnodd arddangosfa ‘100 Gwrthrych’ yn Amgueddfa Wrecsam yn ddiweddar, lle mae ein radio Foulkes yn cael ei arddangos. Amcan y Fforwm yw ysbrydoli diddordeb yn nhreftadaeth amrywiol yr ardal, cyd-weithio ar brosiectau rhanbarthol a rhoi cyhoeddusrwydd i’r prosiectau.



Alan, Vesi, Denys ac Heather o’r Fforwm

Ac o ganlyniad i’r cydweithio yma daeth pobl o Wrecsam i’n darlith ni ar ‘Fwyngloddio yng Ngogledd-ddwyrain Cymru’ gan Alan Jones, cadeirydd Ymddiriedolaeth Cymdeithas Glowyr Gogledd Cymru. Dywedodd Alan mai bwriad yr ymddiriedolaeth yw “cadw yr arteffactau mwyngloddio sydd yn dal i fodoli a chofnodi ein treftadaeth mwyngloddio ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol”. Rhestrodd Alan yr arteffactau maen nhw wedi llwyddo i’w hachub a’u cadw ers sefydlu’r ymddiriedolaeth, gan gynnwys Gorsaf Achub Glowyr, Ffordd Maesgwyn, Wrecsam; yr olwyn fawr yn Llay; y cwt weindio ym Mersham, sy’n mynd i fod yn Amgueddfa, gobeithio; a’r twb o friciau yn Rhosllanerchrhugog. Maen nhw wedi prynu hen fan llyfrgell a’i haddasu er mwyn ei defnyddio fel amgueddfa fach ar gyfer ymweliadau ag ysgolion. Soniodd Alan am y mwynau sydd yn yr ardal, copor, arian, aur, llechi, a glo, ac enwodd y meysydd glo, gan gynnwys maes glo bychan i’r gogledd o Ddinbych. Pan soniodd am amgylchiadau anodd gweithio tan ddaear ymatebodd un o’r gynulleidfa, Denys, trwy ddweud ei fod o wedi bod yn ‘Bevin Boy’ yn ystod y rhyfel. Buon nhw’n trafod am hydoedd a difyr oedd y sgwrs!



Ar Fehefin 15fed, daeth Bardd Cenedlaethol Cymru atom i sgwrsio yn Saesneg am ‘Y Bardd fel Cyfieithydd a Llysgennad’. Doedd pawb ddim wedi sylweddoli ynghynt fod Ifor ap Glyn wedi bod ar bwyllgor llywio sefydlu’r Ganolfan Iaith tra’i fod yn byw yn Ninbych a braf oedd ei weld yn dychwelyd i’r dref ac i’r adeilad. Soniodd am le a phwysigrwydd barddoniaeth yn niwylliant Cymru hyd heddiw a threuliodd y noson yn darllen cerddi o’i lyfr dwyieithog newydd ‘Cuddle Call’ (teitl dwyieithog!) ac yn sôn am gefndir y cerddi a’r traethodau. Nododd fod un gerdd ‘Terasau’ wedi cael ei thaflunio ar ochr cloc Big Ben yn Llundain ar Sul y Cofio 2016, yn y ddinas lle’i ganwyd. Yng Ngwlad Pŵyl daeth ar draws dynes oedd wedi dysgu Cymraeg ac wedi cyfieithu rhai o’i gerddi i’r Bwyleg. Yn ddiweddar, mae wedi bod i Tsieina ar daith fasnach a diwylliant o Gymru a bu’n gwrando ar ei gerddi yn cael eu darllen yn yr iaith frodorol!



Diolch i’r Maer ac i bawb arall a gefnogodd ein Bore Coffi ar y cyd â Mind Dyffryn Clwyd ac Amgueddfa Dinbych. Codwyd dros £300.

Bydd yr Amgueddfa ar agor ddydd Sadwrn yn ystod mis Awst. Os ydych am drefnu ymweliadau ar adegau eraill, cysylltwch â ni ar gwybod@gwefrhebwifrau.org.uk





J Williams BLAS DA

EICH CIGYDD LLEOL

124 Stryd y Dyffryn
Dinbych Ll16 3BS
01745 812585

## Annog Myfyrwyr o Gymru i fynd i astudio ym Mhrifysgol Rhydychen




Jeff Collins a Claire Macht

**Jeff Collins o Prion sy'n adrodd hanes yr anogaeth**

Rwyf wedi trefnu digwyddiad a oedd wedi ei anelu yn benodol at Gymru ac a fynychwyd gan fyfyrwyr o'r ysgolion lleol, gan gynnwys Ysgol Glan Clwyd ac Ysgol Brynhyfryd. Fy nod oedd annog llawer mwy o'n pobl ifanc ddawnus i wneud cais am le ym Mhrifysgol Rhydychen. Nifer fach iawn sydd, mewn gwirionedd, yn ymgeisio ar hyn o bryd.

Cynhaliwyd y digwyddiad am 10:30 yn neuadd Ysgol Uwchradd Dinbych ar ddydd Llun 25 Mehefin.

Y prif siaradwr oedd Claire Macht, academydd o Ganada sy'n dysgu yn y Brifysgol.

Treuliwyd awr ddiddorol yn trafod yr hyn y mae Rhydychen yn chwilio amdano mewn ceiswyr llwyddiannus, sut brofiad yw astudio Hanes yn Rhydychen, a dangoswyd hefyd i'r myfyrwyr sut y dylid mynd ati i ddadansoddi



Rhai o fyfyrwyr Ysgol Uwchradd

dogfennau hanesyddol. Tybiaf nad oes unrhyw achlysur tebyg yn y gorffennol wedi rhoi sylw mor benodol i Hanes. Roedd y gynulleidfa'n cynnwys y myfyrwyr mwyaf galluog o Flynyddoedd 12, 11 a 10 yn ysgolion siroedd Dinbych a'r Fflint. Dewisais gynnal y digwyddiad hwn yn Ysgol Uwchradd Dinbych gan fod Pennaeth newydd yr ysgol honno'n hanesydd, ac yn gyn-ddisgybl i mi.

Cefais fy mhenodi, ugain mlynedd yn ôl bellach, yn gynrychiolydd Cymru ar Bwyllgor Cyswllt Ysgolion Prifysgol Rhydychen ar gyfer Hanes, yn dilyn cyfnod o astudio yng Ngholeg Corpus Christi.

Ers blynyddoedd, rwyf wedi treulio llawer o amser ac egni yn annog Rhydychen i drefnu digwyddiadau tebyg i hwn, ac i annog ysgolion a myfyrwyr i ymgeisio. Gan ein bod yn genedl ddawnus, fy ngobaith yw y bydd pobl ifanc Cymru yn dod yn fwy hyderus, ac y bydd mwy ohonynt yn astudio yn y brifysgol fawreddog a byd-enwog hon.




Claire Macht gyda myfyrwyr ysgol Coleg Myddelton

**Autoclinic Glyn Evans**



Stâd Ddwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA
Atgyweiriadau damwain, gwaith adfer o safon, jig,
cyfleusterau crasu isel, gwasanaeth cyrchu 24 awr
**Ffôn:(01745) 815141**






Pennod newydd yn hanes Llyfrgell Dinbych

Mae cyfnod cyffrous ar gychwyn yn Llyfrgell a Siop Un Alwad Dinbych wrth i'r drysau agor i'r cyhoedd unwaith eto ar ôl gwaith adnewyddu sylweddol.

Mae'r Llyfrgell ar ei newydd wedd yn cynnwys:

- Silffoedd newydd sbon yn llawn o lyfrau newydd a deniadol
- Dodrefn moethus a charped newydd drwy'r adeilad
- Desg newydd ar gyfer ymholiadau a Siop Un Alwad a chyfrifiadur hunan-wasanaeth ar gyfer chwilio am wybodaeth benodol am Gyngor Sir Ddinbych.
- Peiriant arbennig ar gyfer benthyg llyfrau yn ogystal a pheiriant ar gyfer argraffu dogfennau eich hunain.
- Llyfrgell y plant wedi ei ail-gynllunio gan greu gofod braf a hyblyg i deuluoedd dreulio amser yn pori drwy'r llyfrau a mynychu gweithgareddau.
- Ystafell gyfarfod wedi ei thrawsnewid
- Ardal gyfrifiaduron ar gyfer unigolion a grwpiau a wi-fi trwy'r adeilad
- Ardaloedd hyblyg ar gyfer defnydd cymunedol ac ar gyfer gweithgareddau/ digwyddiadau'r Llyfrgell a gofod ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol llai eu maint hefyd.
- Ardal anffurfiol ar gyfer astudio a darllen ar gyfer hamdden.

Galwch mewn, bydd na groeso cynnes i bawb a'r staff wrth law i helpu gyda ymholiadau amrywiol.

Oriau agor:

| | |
|---|---|
| Llun | 9.30 – 7.00 |
| Mawrth | 9.30 – 5.00 |
| Mercher | 9.30 – 5.00 |
| Iau | 9.30 – 1.00 |
| Gwener | 9.30 – 5.00 |
| Sadwrn | 9.30 – 12.30 |

## Teyrnged George E. Lloyd

Un o hogia' Lerpwl oedd George Lloyd neu George y Gwlân fel yr oedd yn cael ei adnabod. Magwyd ef yn y ddinas yn ystod y tridegau cyn dod i Ddyffryn Clwyd fel ifaciwi yn 12 mlwydd oed yn ystod yr Ail Ryfel Byd,

Ymgartrefodd gyda theulu Bryn Bod, Groes, ac yr oedd wrth ei fodd yno yn gweithio gyda'r ceffylau.

Dychwelodd i Lannau Merswy ar derfyn y rhyfel, ond cymaint oedd ei hiraeth am Ddyffryn Clwyd fel y daeth yn ôl i Fryn Bod ar ei union bron.

O fewn tri mis roedd o wedi meistroli'r Gymraeg ac yn rhugl yn yr iaith. Gellid ei ddisgrifio fel Sais a ddaeth yn Gymro da.

Treuliodd gyfnod ym myd amaethyddiaeth cyn dod yn ddyn llefrith. Yna bu tro ar fyd wrth iddo fynd i weithio i'r ffatri wlân gan ddod yn nes ymlaen yn rheolwr y gwaith hwnnw. Bu hefyd yn ddyn tân rhan amser gyda'r frigâd leol yn y dref.

Roedd o'n ŵr uchel ei barch yn y cyffiniau hyn, ac yn un a oedd â meddwl mawr o'i deulu.

Roedd Y Capel Mawr yn agos iawn at ei galon, a mynychodd yr oedfaon yn ffyddlon cyn i lesgedd ei lethu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Bu farw ar Fai 27ain yn 89 mlwydd oed.

Cynhaliwyd gwasanaeth i gofio a diolch am ei fywyd yn Y Capel Mawr ar Fehefin 6ed gyda thraddodiant yn dilyn ym mynwent y dref.

Gedy briod Phyllis, merch Julie, mab Andrew a phump o wyrion, sef Tom, Beth, Emma, George a Rebecca.

Teyrnged deilwng iawn i un o hogia' Lerpwl oedd y gân "You'll Never Walk Alone" ar derfyn y gwasanaeth yn Y Capel Mawr.

Trefnwyr Angladdau Annibynnol
R.W.Roberts a'i Fab
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor
CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones


BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377


# Tudalen y Plant

Y BIGWN

**Anrhegion lu!**

Mae gan bob parsel swm gwahanol wedi'i ysgrifennu arno. Cyn y gall y postmon ddanfon y parseli, mae angen i chi ddatrys y symiau ac yna cysylltu pob parsel i'r tŷ cywir. Mae dau barsel ar gyfer pob tŷ.







**HWYL I CHI GYD DROS YR HAF!**

# Drama-Gerdd newydd sbon eto eleni.

Yn dilyn llwyddiant ysgubol ein perfformiadau Mis Gorffennaf y llynedd gyda dau berfformiad ychwanegol ddechrau Ionawr, braf yw medru cyhoeddi ein bod wrthi yn paratoi i gyflwyno Drama-Gerdd unigryw arall ar y 16eg a'r 18fed o Orffennaf eleni.

Bydd yn cynnwys dau ddarn o hanes sydd yn seiliedig ar Fro Aled, a'r trydydd o ardal ychydig yn ehangach o'r hen Sir Ddinbych. "**Chwedl Llyn Creiniog, Helyntion y Degwm a'r Freichled Arian**" yw teitl y cynhyrchiad a bydd yn cynnwys y llon a'r lleddf.

Bydd plant Ysgol Bro Aled yn cychwyn y sioe gan gyflwyno hen chwedl am Dywysoges y Tylwyth Têg yn syrthio mewn cariad a bugail Rhydeidion Ganol. Mae llinynnau cariad mor gryf nes eu bod yn cael caniatâd ei thad i briodi. Ond mae un amod........ Ond bydd rhaid i chi ddod i'w gweld os am wybod beth oedd tynged y ddau gariad.

Mae'r stori arall yn datgelu hanes y Degwm a'r gwrthdrawiad rhwng y ffermwyr lleol yn eu gwrthwynebiad yn erbyn awdurdodau'r Eglwys a'r Heddlu. Mae awdurdodau'r Eglwys yn mynnu taliadau o 10% o incwm y ffermwyr tuag at gynnal cyflogaeth yr Eglwysi. Roedd hyn yng ngwŷneb y ffaith mai anghydffurfwyr oedd y mwyafrif llethol o'r ffermwyr lleol, ac eisoes wedi cyfrannu yn hael, nid yn unig at godi'r Capeli, ond hefyd at eu cynnal, ond mae tro annisgwyl yn y stori, ac mi gewch lot o chwerthin.

Mae'r trydydd hanesyn yn ymwneud a merched ifanc o Gymru a Phrydain yn cael eu hallforio i Tasmemia a Botany Bay am dorcyfraith mwyaf pitw. Roedd sawl rheswm am yr allforio, e.e. roedd yn rhatach na'u carcharu, roedd hefyd angen cynyddu poblogaeth "Coloni yr Ymerodraeth Prydeinig" yr ochr arall i'r byd. Gwirionedd arall oedd bod cymaint o "convicts" wedi eu halltudio, byddai cyflenwad o enethod ifanc yn help i atal terfysg ymysg eu gilydd. Alltudiwyd 300 o ferched o Gymru, gyda 22 o'r hen Sir Ddinbych yn unig. Yn y cynhyrchiad yma byddwn yn dilyn hanes un merch leol yn cael eu dedfrydu am ddwyn breichled Arian merch y Plas – medda hi!

Er mwyn y cynhyrchiad yma mae'r ddau hanesyn yn digwydd yn yr un cyfnod, ac yn ymwneud a ardal Bro Aled. Bydd y perfformiadau yn digwydd yn ystod wythnos olaf cyn i'r ysgolion gau am wyliau'r Haf – sef Gorffennaf 16eg. a 18fed. Gyda'r llwyddiant gawsom llynedd, rydym yn cynllunio am ddau berfformiad arall yn yr Hydref – cewch fwy o wybodaeth eto. **Bydd hon eto yn sioe a hanner, felly dewch i'w gweld a'i mwynhau**.

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Berwyn ac Ann y Gelli, Llansannan, 01745 870653 neu berwyn@btinternet.com am fwy o wybodaeth.

---

**Canolfan Bro Aled, Llansannan**

Drama Gerdd ☺ newydd sbon ☺

**Chwedl Llyn Creiniog, Helynt y Degwm a'r Freichled Arian**


Bydd ynddi ganu, llond bol o chwerthin a thristwch pob yn ail a'i gilydd, fel bydd y sioe yn datblygu i'w diweddglo ar y diwedd - gweler manylion yn yr erthygl.

**Bydd dau perfformiad -**
**Gorffennaf - 16eg. a'r 18fed. - 7:30pm**

*Er mwyn cadw y nifer o fewn rheolau'r Ganolfan*
*Bydd tocynnau ar gael o ddiwedd Mehefin ymlaen.*
*Cysylltwch ag unrhyw un o'r canlynol :-*

*Berwyn, Gelli 01745 870 653 / 07810 810 653*
*neu ebostio berwyn@btinternet.com*

**Cofiwch y dyddiadau –**
**cewch brofiad cofiadwy unwaith eto.**



# Ysgol Glan Clwyd



**Llongyfarchiadau** i Mr Dewi Owen ar gael ei enwebu ar gyfer 'Athro yr Wythnos' yn ddiweddar gan Sound Radio Wales. Enwebwyd Mr Owen gan Elin Jones ac Elisha Jones o fl 10.
Dyma'r ail dro eleni i athrawon o'r Ysgol ennill y wobr. Da iawn chi!



Mis dwythaf cafwyd erthygl am ein disgyblion wedi llwyddo ym maes Celf o dan adain cystadleuaeth Arlunio Syr Kyffin Williams Ysgolion Sir Ddinbych 2018. Bydd y gwaith yn cael ei arddangos fel rhan o 136ed Arddangosfa Blynyddol Haf yr Academi (pob galeri) a bydd ar gael i'w weld o Gorffennaf 7fed yn yr Academi Frenhinol y Cambrian, Conwy. Llongyfarchiadau i chi gyd.



Llongyfarchiadau i Josie Smith bl 11 ar ennill ei chap cyntaf yn chwarae peldroed dros merched Cymru dan 16 oed yn

a gymerodd ran a llwyddo yn Eisteddfod yr Urdd - dyma'r canlyniadau. Diolch i bawb am roi amser i mewn i'w paratoi

1af - Parti Cerdd Dant Bl 7, 8 a 9

3ydd - Parti Merched Bl 7, 8 a 9

2il - Monolog Bl 10 a dan 19 – Mali Elwy

1af - Serameg/ Crochenwaith Bl 7, 8 a 9 – Efa Fitzgerald

2il - Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl 10 a dan 10 – Brannon Liston-Smith

3ydd - Print Monocrom Bl 7, 8 a 9 - Emily Morris

3ydd - Tîm dawns Glannau Clwyd (bl 7 ac 8)

Llongyfarchiadau hefyd i'r canlynol am eu gwaith caled ac am gynrychioli'r ysgol môr dda:

Parti Bechgyn Bl 7 a 8, Gan Actol Bl 8 a 9, Criw Llefaru Bl 7, Criw Llefaru Bl 10, Ymgomwyr Bl 7, Erin Davies - Unawd Cerdd Dant Bl 7, 8 a 9

Siwan Williams ac Erin Davies - Deuawd Bl 7, 8 a 9, Mali Elwy - Llefaru Bl 10 a dan 19, Mali Elwy - Unawd o Sioe Gerdd Bl 10 a dan 19

Elliott Maitland Davies - Unawd Chwythbrennau Bl 7, 8 a 9, Gwenllian Vaughan - Unawd Piano Bl 7, 8 a 9, Julia Bugelli - Unawd Telyn Bl 7, 8 a 9

Rydym yn edrych ymlaen i groesawu 195 o ddisgyblion bl 6 o'r ysgolion cynradd yma ar Orffennaf 4ydd a'r 5ed i flasu gweithgareddau amrywiol dros y deuddydd ac i'w paratoi ar gyfer y trosglwyddo i fl 7 ym mis Medi. Gobeithio y byddwch yn hapus yma hefo ni.

Gyda tymor yr arholiadau TGAU a Lefel A drosodd a disgyblion bl 13 wedi gorffen yn yr ysgol, mae 3 diwrnod o weithgareddau yn seiliedig ar ddatblygu sgiliau cyweithio ac arwain wedi eu trefnu ar gyfer gweddill y disgyblion. Gobeithiwn y byddant yn manteisio ar y cyfleon i godi hyder, datrys problemau, ceisio sgiliau newydd a meithrin y gallu i weithio'n effeithiol mewn tîm. Byddant yn cael y profiadau yma yn Plas Menai (i fl 7, 9 a 10) a Catalyst (bl 8) **Llongyfarchiadau** i bawb

J. H. & B. JONES
CIGYDD TEULU
Gwerthu PYSGOD hefyd
* Cig cartref
* Cig o ffermydd lleol
* Cig i'r rhewgell
92 Stryd y Dyffryn,
Dinbych
01745 812132



Cartwnau Huw
Rhifyn arbennig o'r **Bigwn** yn cynnwys gwaith ein cartwnydd Huw Vaughan Jones dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain
Ar werth yn Siop Clwyd
**Pris- £3 Pris drwy'r post - £4**
Ar gyfer sicrhau copi drwy'r post cysylltwch â:-
John Geraint Jones -
jones_john@btinternet.com

# Un fisgedan arall!

Does yna ddim gwadu'r peth. Mae'n rhaid bod yn ddyn dewr a derbyn y ffaith – rydwi wedi magu bol!
Ia, Fi – y weiren gaws, y sgilfffyn main, yr un a fu'n destun sbort yn ei ieuenctid oherwydd ei goesau robin goch a'i freichiau bwgan brain.
Un a fu "o dan bwysau" am hanner canrif a mwy, bellach yn drymach nag a ddylai fod.
Fedra' i ddim credu'r peth!
A dyma fi yn awr yn gorfod derbyn fy mod i wedi twchu rownd fy nghanol, ac o ganlyniad yn gorfod rhoi sawl trowsus newydd sbon bron o'r neilltu.
A d'eud y gwir rhwng dau faint ydw i, mewn gwirionedd. Mae maint y trowsus roeddwn i'n arfer ei brynu shedan yn rhy dynn imi, a'r maint rydwi'n gorfod ei brynu bellach ymhell rhy fawr imi.
Dydy pabell ddim gyda'r un tinc â'r gair tent, ond mi rydach chi'n gwybod beth ydw i'n feddwl. Mae'r gafl yn nes at y pengliniau na dim arall, a'r cyfan yn hongian yn llipa ac yn flêr fel sach o datws amdana' i.
Mi rydwi'n gyson yn gorfod halio fy nhrowsus i fyny– a hynny yn ofer - gan fod y gwasg yn llithro at asgwrn y clun fel "hipsters" y chwedegau.
Dydy belt ddim yn g'neud ei waith. O'i gau yn dynn y mae'r trowsus yn colli'i siap.
Pam, o pam, mae yna fwlch o ddwy fodfedd rhwng un maint a'r llall ym myd trowsusau dynion?
A fedrwch chi ddim cael trowsus dydd Sul gydag elastig o amgylch y gwasg.
O gofio profiadau fy mhlentyndod, fe wnes i fuddsoddi mewn bresys – rhai glas tywyll a oedd yn sicr o fod yn gaffaeliad i unrhyw ddyn.
Ond ow y gwae a'r gofid! Doedd eu lleoli nhw'n gywir ddim yn beth hawdd i un mor ddi-lun â mi, ac o'u gosod yn y lle iawn roedden nhw'n tynnu mewn mannau eraill. Eu lluchio o'r neilltu fu eu hanes.
Os oedden nhw'n gweddu i Milky Bar Kid Llanberis, doedden nhw ddim yn gwneud y job i'r hen grinc o Golomendy.
Ceisio am sbel b'yta llai o fara menyn a thatws a b'yta mwy o bethau iach fel llysiau a ffrwythau ac yfed galwyni o ddŵr.
Dim byd yn tycio, ond doedd hynny ddim yn syndod gan fy mod i'n meddwl y gallwn f'yta ambell fisgedan (wel tair neu bedair) fel gwobr ar ôl b'yta afal neu oren.
Ac yna sylweddoli wrth fynd ar y glorian na fûm i erioed mor drwm, a'r canfyddiad fod yr hen fol crwn bach hwn wedi datblygu oherwydd fy hoffter o bethau melys.
Ond dyna fo gyda chyfenw fel Lyall fedrwn i ddim bod yn un i wrthod cacennau hufen, bisgedi a siocled.
Fy ngwendid pennaf ydy' nad dyn un neu ddwy chocolate finger ydw i, ond un sydd yn b'yta'r paced cyfan ar unwaith. Yr un modd gyda bar o Galaxy neu Dairy Milk.
Mae'n haws gyda siocled tywyll. Gan ei fod o mor chwerw, dydy rhywun ddim yn gallu b'yta cymaint ohono.
Fe lwyddais i unwaith dd'eud dos o'm ôl i Satan wrth y fath bethau blasus a ffantastig. Yn anffodus, mae Nadolig, Pasg, Penblwydd a Sul y Tadau yn digwydd bob blwyddyn, a'r hen ffordd Gymreig o fyw yn llithro'n ôl oherwydd caredigrwydd pobl eraill.
Yn wir, eu bai nhw ydy o. O'r funud y rhoddodd mam siwgr ar fy nymi am fy mod i'n fabi mor flin, lawr allt fu fy hanes.
Wrth gwrs, ers talwm roeddwn i'n defnyddio cymaint o ynni fel fy mod yn llosgi'r cyfan o fewn dim o dro.
Mae hi'n stori wahanol bellach er fy mod i'n g'neud fy ngorau i gadw'n gorfforol brysur drwy fynd ar deithiau cerdded a dosbarthiadau cadw'n ystwyth.
Ond pan rydach chi wedi ymddeol mae yna fwy o gyfleon am baned a bisged a chacen gri. A d'eud y gwir rydwi'n teimlo fel paned a bisgedi y funud hon ar ôl bwrw fy mol fel hyn.
Ac o sôn am fol, i ba gyfeiriad rydwi am fynd rŵan? Mae yna ddywediad Saesneg yn cyfeirio at wylio rhyw ofod neu'i gilydd. Gobeithio na fydda' i'n llenwi'r gofod i gyd ac angen trowsus fwy fyth!

Stan Lyall

Morgeisi
CARTREF
Mortgages
**Cyngor Morgais Di-Ffi**
Cynnyrch y Farchnad Gyfan ar gael
Gwasanaeth Dwyieithog
Symud Tŷ | Prynu | Ailforgeisio
Gwasanaeth Proffesiynol, Gonest a Chyfrinachol
Ffoniwch neu E-bostiwch Rhodri Sellers
0782 8824596 Rhodri@cartrefmortgages.co.uk

CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**
- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**
- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnïau a Corfforì
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA
01745 812835
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com
Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned
Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall

# CLWB RYGBI DINBYCH

Gyda Phencampwriaeth Ail Adran Gogledd Cymru eisoes wedi ei sicrhau, rhaid oedd teithio i lawr i Meifod i chwarae yn erbyn COBRA, yr unig dîm i guro Dinbych yn y Gynghrair. Gêm oedd hon wedi ei gohirio ychydig wythnosau ynghynt oherwydd cyflwr gwlyb y cae yn dilyn cyfnod hir o law. Gwahanol iawn oedd y tywydd erbyn hyn, gyda haul crasboeth yn tywynnu ar Fwynder Maldwyn. Unwaith yn rhagor, COBRA gariodd y dydd, o 35-17. Er mor ddibrofiad oedd tîm Dinbych ar y diwrnod, roedd y tîm cartref yn llawn haeddu'r fuddugoliaeth, ac maent yn sicr ymysg y ffefrynnau i ennill dyrchafiad o'r Ail Adran y tymor nesaf.

Fe gynhaliwyd Cinio Blynyddol a Noson Wobrwyo y Clwb yng Ngwesty'r Oriel ddiwedd mis Mai. Y prif westai oedd Mr Lee Byrne, cyn chwaraewr gyda'r Sgarlets, Y Gweilch, Cymru a'r Llewod, yn ogystal â thri tymor yn Ffrainc gyda Clermont Auvergne cyn dod yn ôl i Gymru i gynrychioli'r Dreigiau am gyfnod byr. Cawsom gyfle i glywed nifer o sylwadau diddorol ganddo yn ystod y sesiwn holi ac ateb dan ofal Bernard Thomas.

Cyflwynodd Lee y gwobrwyon am y tymor 2017-2018 fel a ganlyn:

**Tîm Cyntaf**

Chwaraewr y Flwyddyn: Tom Seddon

Chwaraewr y Chwaraewyr: Tom Seddon

Chwaraewr Mwyaf Ymroddgar: Dan Lawrence

Chwaraewr sydd wedi gwella fwyaf: Joe Davies

**Ail Dîm**

Chwaraewr y Flwyddyn: Iwan Johnson

Chwaraewr y Chwaraewyr: James Rowse

Chwaraewr Mwyaf Ymroddgar: Ryan Pinfold

Chwaraewr sydd wedi gwella fwyaf: Ben Reed

**Ieuenctid**

Chwaraewr y Flwyddyn (Tlws Coffa Peter Jones): Jac Jones

Chwaraewr y Chwaraewyr: Robin Williams

Chwaraewr Mwyaf Ymroddgar (Tlws Coffa Richard Jones): Tom Jones

Chwaraewr sydd wedi gwella fwyaf: Callum Taylor

Gwobr y Capten: Robin Williams

**Cefnogwr y Flwyddyn**

Denise Harris

**Gwasanaeth Oes i'r Clwb**

Russell Rowlands

**Aelod y Flwyddyn**

Graeme Decke

**Gwobr Arbennig**

David Haydock

Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr a'r rhai a enwebwyd. Unwaith eto roedd y Clwb yn ddyledus i Nick Wynne am drefnu noson wych arall. Mae ei waith caled yn sicrhau fod gennym y siaradwr gwadd, bwyd a lleoliad gorau ar gyfer digwyddiad mor bwysig yn nyddiadur y Clwb. Hoffai'r Clwb ddiolch i reolwyr a staff yr Oriel, Llanelwy am bryd o fwyd rhagorol a noson gofiadwy. Erbyn hyn mae hen edrych ymlaen at y cinio arbennig i ddathlu penblwydd y Clwb yn ddeugain oed, i'w gynnal ar nos Sadwrn Gorffennaf 7fed, sef dyddiad cyhoeddi'r rhifyn hwn o'r Bigwn. Y gŵr gwadd ydy'r dyfarnwr byd-enwog Nigel Owens, ac mae'n argoeli i fodd yn achlysur arbennig. Y gobaith hefyd ar y noson yw lansio llyfr dwyieithog yn dilyn hynt a helynt deugain mlynedd cyntaf y Clwb, yn dwyn y teitl "Clwb Rygbi Dinbych, Calon Ein Cymuned. 40 Mlynedd o Rygbi". Bydd copïau ar gael am £10.

Unwaith i'r tymor ddod i ben cafwyd Diwrnod Gwobrwyo yr Adran Mini Iau, a braf oedd cael cwmni Capten y Clwb, Narmer El-Lami, i gyflwyno'r gwobrau.

# CLWB RYGBI DINBYCH

Gorfodwyd y Tîm Cyntaf i deithio'r holl ffordd i Lanidloes ar nos Fercher er mwyn sicrhau Pencampwriaeth Adran 2 Gogledd Cymru. Er gwaetha'r siwrnai faith ac wedyn cychwyn y gêm am 8 o'r gloch, cafwyd buddugoliaeth o 66 – 10, gan sgorio deg cais, gyda Dan O'Sullivan yn croesi am hatric a Tom Seddon yn sgorio 19 pwynt. Ar derfyn y gêm ganlynol, sef buddogoliaeth arall o 36 – 12 yn Abergele, cyflwynwyd Tlws y Bencampwriaeth i'r capten, Dan Jones. Rhaid canmol ymroddiad yr holl garfan a'r tîm hyfforddi gydol y tymor, a dymunwn bob llwyddiant iddynt yn Adran 1 y tymor nesaf. Erbyn diwedd y tymor roedd y tîm hwn wedi chwarae 18 gêm yn y Gynghrair ac ennill 16, gan sicrhau 77 pwynt, gyda COBRA, y tîm yn yr ail safle, ar 68 pwynt.

Sgoriodd yr Ail Dîm 12 cais yn Y Rhyl yng Nghynghrair Clwyd, ac ennill o 75 – 3, gyda Gareth Price yn cael hatric. Yn fuan wedyn daeth y newyddion mai Ail Dîm Clwb Rygbi Dinbych oedd Pencampwyr Cynghrair Clwyd, ac i ddathlu'r achlysur cafwyd buddugloiaeth o 12 – 10 dan y llif-oleuadau mewn gêm hynod gyffrous yn erbyn tîm cryf iawn o Abergele.

Cafodd yr Ieuenctid fuddugoliaeth o 31 – 5 yn Y Rhyl, cyn colli o 37 – 5 ym Mhwllheli, y ddwy gêm yn gemau Cynghrair. Wedyn daeth y siom anferth o golli gartref o 20 – 9 yn erbyn COBRA yn Rownd Cyn-Derfynol Cwpan Gogledd Cymru.

Chwaraeodd y Tîm Dan 15 ar nos Wener ym Mae Colwyn, gan chwarae'n arbennig o dda i ennill o 60 – 7 a sgorio deg cais, gyda Gruff Roberts yn sgorio hatric a chicio pum trosiad – cyfanswm o 25 pwynt. Daeth eu tymor i ben yn Nant Conwy, gan ennill o 36 – 10. Unwaith eto sgoriodd Gruff Roberts hatric o geisiau. Llwyddodd y bechgyn i ennill 13 allan o 15 gêm drwy'r tymor, gan sgorio 579 pwynt ac ildio 196 – tymor hynod lwyddiannus.

Daeth mwy o lwyddiant i'r Clwb, y tro hwn gyda'r Tîm Dan 10 yn ennill y Twrnament Eingl-Gymreig yn Wrecsam. Roedd y tîm yn ddiguro drwy'r dydd gan guro Nant Conwy o 29 – 7 yn y Ffeinal. I goroni'r cyfan roedd dau o sêr mwyaf disglair Cymru, Sam Warburton a Ryan Jones, yn bresennol i lofnodi peli, crysau ac eitemau eraill. Roedd y plant – a nifer o'r mamau yn ôl bob sôn – wrth eu bodd yn cael cyfle i gyfarfod eu harwyr! Cafwyd twnament arall ar ddiwedd y tymor yn Llandudno, ac ar ôl chwarae deg gêm, colli i Nant Conwy yn y Ffeinal o 4 – 0. Hoffai'r rhieni ddiolch o galon i'r Hyfforddwraig, Catrin Jones, am ei hymroddiad drwy'r tymor.

Cyn i'r tymor ddod i ben yn gyfan gwbwl, bydd y Tîm Cyntaf yn chwarae yn erbyn Shotton yn Rownd Derfynol Cwpan Ganolradd Gogledd Cymru ym Mharc Eirias, a'r Ail Dîm yn chwarae yn Rownd Derfynol Cwpan Clwyd yn erbyn Rhuthun yng Nghlwb Rygbi Bae Colwyn. Cewch wybod os daeth mwy o lwyddiant i'r Clwb yn y rhifyn nesaf.

Llunoau ar dudalen gefn

# Newidiadau i Ddinbych

Yn dilyn llwyddiant gorau CPD Dinbych yn eu hanes, ble gorffennon nhw'n ail yng Nghynghrair Huws Gray Cymru - yr ail haen o bêl-droed yng Nghymru - fe gysylltodd CPD y Rhyl gyda'r clwb, yn awyddus i siarad gydag Eddie Maurice-Jones. Y gobaith oedd ei berswadio i ddod yn rheolwr ar Y Rhyl. Ar ôl ystyried yn galed, fe ymddiswyddodd Maurice-Jones gan dderbyn y swydd fel rheolwr CPD y Rhyl. Fe adawodd ei dîm rheoli o Ddinbych hefyd i ymuno gydag ef yn y Rhyl, gyda Richard Williams yn dod yn gynorthwyydd iddo, a Dan Reece yn dod yn hyfforddwr y tîm.

Yn y cyfamser, mae CPD Dinbych wedi apwyntio Dewi Llion Jones a Matty Jones fel rheolwyr, gyda'r ddau yn rhannu'r rôl, yna Pete Lloyd fel eu cynorthwyydd. Mae'r tri yn lleol i'r ardal - Dewi wedi ei fagu yn Ninbych, a Matty ym Mhrion. Mae Pete Lloyd yn byw ym Mhandy Tudur, ac er bod y tri yn eithaf ifanc yn y maes rheoli, mae ganddyn nhw gyfoeth o brofiad o fewn y gêm.

Mae Dewi wedi bod yn hyfforddwr y tîm cyntaf ers Hydref 2016, a chyn hynny roedd yn rhedeg Academi CPD Y Bala am bedair blynedd. Ers sawl blwyddyn bellach, mae Matty wedi bod yn hyfforddwr, a'i swydd ddiweddaraf oedd rheolwr ar y cyd o CPD Y Rhyl. Yn ddiweddar, mae Dewi a Matty wedi derbyn eu bathodynnau hyfforddi Trwydded A FAW. Mae Pete Lloyd wedi bod yn rhan o bêl-droed lleol ers blynyddoedd bellach ac yn dod â'r profiadau o hyfforddi a rheoli Llandyrnog Utd, Llanrwst ac yn fwy diweddar Croesoswallt, gydag ef.

Wrth gymryd y rôl fel rheolwyr, roeddent yn ymwybodol bod o leiaf 4-5 o'r tîm llwyddiannus y llynedd yn dilyn Maurice-Jones i'r Rhyl. Ers cael eu hapwyntio, death hi'n amlwg fod 10 o'r chwaraewyr yn symud i'r Rhyl ac felly bu rhaid dechrau tîm hollol newydd i raddau wrth i'r ddau ddechrau eu gyrfâu fel rheolwyr Dinbych.

Roedd y ddau yn awyddus i gynnwys cymaint o chwaraewyr lleol â phosib ac mae eu harwyddiadau cyntaf wedi adlewyrchu hyn gyda Mark Roberts a Miles Rodd yn ymuno gyda'r clwb o Landyrnog, a'r brodyr Jones, Sam a Tom yn arwyddo o Lanefydd. Arwyddiadau eraill sydd wedi dilyn yw cyn chwaraewr Dinbych, Tony Davies, sy'n ail ymuno o Rhyl, yn ogystal â Sam Downey, hefyd o'r Rhyl.

Mae capten ieuenctid Wrecsam, Scott McHarrie sy'n ddeunaw oed, a Ross Weaver sy'n un ar hugain oed o Brestatyn, hefyd wedi arwyddo ymlaen, a Bailey Jackson o Airbus hefyd wrth i'r rheolwyr newydd edrych ar roi eu stamp eu hunain ar y tîm. Mae mwy o arwyddiadau yn gobeithio cael eu cadarnhau dros y misoedd nesaf wrth i'r tymor newydd ddechrau nos Wener, Awst y 10fed am 7:30pm, gartref yn erbyn Gresford.

Bydd yr Ail Dîm yn parhau gyda'r un tîm hyfforddi gyda Kev Roberts wrth y llyw, a'i staff hyfforddi, John Roberts a Gareth Hughes. Maent wedi arwyddo dros 20 o chwaraewyr i'w tîm, rhai a fydd hefyd yn cael eu cynnwys yn y tîm cyntaf.

Mae triawd rheolaethol Denbigh Development, Nick Hailes, Ian Clayton ac Al Griffiths wedi gadael y Clwb er mwyn rheoli Ail Dîm Llandyrnog. Bydd rheolwr newydd yn cael ei gyhoeddi yn yr wythnosau nesaf ar gyfer y tîm ifanc hwn. Lluniau yn y cefn












# BRODYR MAGEE.

Bydd y band gwerin o Gaergybi, sef y Brodyr Magee, yn perfformio yn y Clwb Rygbi, Dinbych ar nos Wener Medi 21ain am 8.0 o'r gloch.

Mae'r pum aelod sydd yn y grŵp yn frodyr i'w gilydd .Yn ddiweddar enillodd y grŵp y wobr gyntaf yn y categori "Can newydd gwreiddiol" yn yr Ŵyl Pan Geltic yn yr Iwerddon.

Cyfansoddwyd y gan fuddugol gan Paul, y brawd hynaf. Wrth weithio mewn ysgol gynradd yn ystod ei hyfforddiant fel athro, gofynnwyd iddo gysuro plentyn a gollodd ei fam i ganser. Ni allai'r plenty ddeallt yn iawn yr hyn a fu, ond roedd yn credu'n gryf fod ei fam yn edrych ar ei ôl o'r nefoedd. Roedd hyn yn ddigwyddiad emosiynol i Paul ac felly fe gyfansoddodd y gan "Can i K"

Trefnir y noson ddwyieithog gan Brian Thomas gyda help y pobydd Alwyn Thomas. Yn ogystal ag adloniant cerddorol bydd "hot pot" yn cael ei gynnwys yn y pris o £10.


Bydd holl elw'r noson tuag at gronfa Eisteddfod yr Urdd a gynhelir yn Ninbych yn 2020.

Bydd mynediad drwy docyn yn unig. Mae'n rhaid archebu tocyn erbyn Medi 17eg.

Tocynnau ar gael gan:
Brian Thomas 01745 814340
Siop Clwyd
Te yn y Grug
Chocolate Shop.



siop siocled
01745 814864 dinbych
RWAN YN DERBYN ARCHEBION:
PARTION PLANT, NOSWEITHIAU MWYTHAU I'R ARDDEGAU/OEDOLION A BUSNESAU
* Partion Mwythau o £99
* Partion Siocled o £125
* Nosweithiau i Oedolion a Busnesau o £150
I sicrhau dyddiad i'ch parti ffoniwch 01745 814864
neu ebostiwch mark@denbighchocolateshop.com
Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com
YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN




AR WERTH O GLWB RYGBI DINBYCH, SIOP CLWYD NEU DRWY FFONIO 01745 812239.

**£10.00 YN UNIG!!**

**Hysbyseb Gwasg Helygain**



Diwrnod Gwobrwyo'r Minis



Russ Rowlands a Lee Byrne




David Haydock a Nick Wynne




Y Brodyr Jones, Sam a Tom

yn ymuno.



Bachgen lleol, Mark Roberts, yn arwyddo i'r clwb.




Tîm rheolaethol newydd Dinbych, Dewi Llion, Pete Lloyd a Matty Jones

***GOLYGYDD Hydref : Angharad Rhys, Cidwm, 1 Llys Tudur, Dinbych angharad-cidwm@hotmail.co.uk***

Cyhoeddwyd gan: Gymdeithas y Bigwn Cysodwyd gan Hywel Evans ac Argraffwyd gan Wasg Helygain